

# THE LEGACY OF HEROES IS THE MEMORY OF A GREAT NAME AND THE INHERITANCE OF A GREAT EXAMPLE

Benjamin Disraeli, 1849

## HELPU TEULUOEDD

Mae dros hanner y rhai sy’n cael eu helpu gan y Lleng Brydeinig Frenhinol yn iau nag oedran ymddeol, gan gynnwys miloedd o Deuluoedd y Lluoedd Arfog. Mae bywyd ar gyfer y teuluoedd hyn yn aml yn llawn straen, gyda gŵyr neu wragedd i ffwrdd ar deithiau dyletswydd.

Mae cyfnodau estynedig o fod ar wahân, ynghyd â’r pryder o rai annwyl yn gwneud gwaith peryglus, yn golygu fod bywyd bob dydd ymhell o fod hawdd.

Gair neu gam cyntaf plentyn, y diwrnod cyntaf yn yr ysgol, pen-blwydd neu ddigwyddiad arbennig i’r teulu – yn aml mae aelodau o Luoedd Arfog Prydain yn methu allan ar yr amseroedd hynny sy’n aros yn y cof, y mae llawer ohonom yn eu cymryd yn ganiataol. Mae’r Lleng yno i gefnogi’r holl deuluoedd hyn, drwy gydol y flwyddyn.

WWW.BRITISHLEGION.ORG.UK/LEARNING

Registered Charity No: 219279

© Crown Copyright 2015

LIVE ON

THE ROYAL BRITISH LEGION



# AT THE GOING DOWN OF THE SUN, AND IN THE MORNING, WE WILL REMEMBER THEM

An extract from ***For the Fallen*** by Laurence Binyon

## COFIO

Mae cofio yr un mor berthnasol heddiw ag yr oedd 100 mlynedd yn ôl – mae aberth y rheini yng Nghymuned y Lluoedd Arfog wedi parhau i hawlio bywydau mewn rhyfeloedd hen a newydd. Cofiwn bawb yr effeithiwyd arnynt gan ryfel yn cynnwys y rhai sydd wedi marw a'r rhai sydd wedi dioddef. Mae cofio yn rhywbeth i bawb gymryd rhan ynddo, ym mhob cymuned. Mae ar gyfer pobl o bob oed a gallu, o bob ffydd neu ddim ffydd, o bob barn wleidyddol neu ddim barn. Gall cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau Cofio fod mor syml ag arsylwi Dau Funud o Ddistawrwydd am 11 o'r gloch bore'r 11 Tachwedd (Diwrnod y Cadoediad), ysgrifennu cerdd am y Cofio neu drefnu digwyddiad.

Y pabi yw'r symbol cyffredinol a gydnabyddir am Gofio a gobaith. Pan fyddwch yn gwisgo pabi rydych yn dangos eich bod yn meddwl, gan helpu Lleng Brydeinig Frenhinol i gefnogi miloedd o Gyn-filwyr Lluoedd Arfog Prydain – dynion a merched o bob oedran, a'u teuluoedd. Mae eich cefnogaeth yn helpu i sicrhau y gall y Lleng roi'r gofal gydol oes sydd ei angen arnynt – gallant barhau i fyw, gan wybod bod cymorth bob amser yno ar eu cyfer.

WWW.BRITISHLEGION.ORG.UK/LEARNING

Registered Charity No: 219279

LIVE ON

THE ROYAL BRITISH LEGION




LIVE ON

THE ROYAL BRITISH LEGION




# A MAN IS NOT YET DEAD WHILE HIS NAME IS STILL SPOKEN

Terry Pratchett

## BRAWDGARWCH GYDOL OES

Mae gwaith y Lleng Brydeinig Frenhinol yn dod ag aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog at ei gilydd – mewn digwyddiadau Cofio, mewn digwyddiadau cymdeithasol, yn y canghennau Lleng niferus ar draws y DU ac yn yr Ardd Goffa Genedlaethol yn Swydd Stafford, Canolfan Gofio gydol y flwyddyn y DU. Mae'r Lleng hefyd yn cefnogi plant o Deuluoedd y Lluoedd drwy ei glybiau ysgol cysylltiedig, fel HMS Heroes, sydd bellach â 7,500 o aelodau. Mae gan ddynion a merched sydd wedi hyfforddi gyda'i gilydd, gwasanaethu gyda'i gilydd, ymladd gyda'i gilydd a dioddef gyda'i gilydd gefnogaeth gydol y flwyddyn oddi wrth y Lleng a nifer o gyfleoedd i ddod at ei gilydd pan fo angen i rannu eu profiadau a chaniatáu i'w hatgofion fyw i'r dyfodol.

WWW.BRITISHLEGION.ORG.UK/LEARNING

Registered Charity No: 219279

LIVE ON

THE ROYAL BRITISH LEGION